Gostwng y risg - torri'r gost

Gwir gost damweiniau a salwch yn y gwaith

HSC
Comisiwn Iechyd a Diogelwch

Am beth mae'r daflen hon yn sôn?

Mae'r daflen hon:

- yn egluro pa mor ddrud y gall damweiniau a salwch yn y gwaith fod;
- yn rhoi enghraifft o fywyd go iawn i ddangos hyn;
- yn awgrymu dulliau syml i weithio allan y costau posibl i'ch cwmni; ac
- yn cynnig cyngor ar yr hyn y gallwch ei wneud i'w hatal rhag digwydd.

Mewn cwmni trafnidiaeth a astudiwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, roedd cost damweiniau yn cyfateb i un rhan o dair o'i elw blynyddol.

Mae gweithredu er mwyn gwella safonau iechyd a diogelwch, yn ogystal â bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith, hefyd yn dda i'ch busnes.

Cofiwch

Mae damweiniau a salwch a achosir gan waith yn costio o ran amser ac arian.

Ni allwch yswirio yn erbyn yr holl gostau sy'n deillio o'r rhain a gallant gael effaith ddramatig ar eich busnes. Ond gallwch eu hatal rhag digwydd, gan arbed amser ac arian i chi.

Beth allai ddigwydd i'm busnes?



Roedd gweithiwr yn defnyddio peiriant drilio heb giard mewn cwmni peirianneg bach a oedd yn cyflogi 15 o weithwyr. Bachodd llawes ei siwmper yn y dril cylchdroi gan ddal ei fraich.

Torrwyd y ddau asgwrn yn rhan waelod ei fraich a dioddefodd anafiadau helaeth i'w feinwe a'i gyhyrau. Treuliodd 12 diwrnod yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth ac roedd i ffwrdd o'r gwaith am dri mis. Ar ôl iddo ddychwelyd, bu'n cyflawni dyletswyddau gweinyddol am bum mis ac ni allai weithio peiriannau am wyth mis.

Erlynwyd y rheolwr-gyfarwyddwr yn dilyn y digwyddiad.

Costau i'r cwmni

Cyflog i'r gweithiwr a anafwyd dros y cyfnod	= £10 000
Colled cynhyrchiant/gwaith arfer angenrheidiol	= £8000+
Cyflogau goramser i gwmpasu'r cynhyrchiant a gollwyd	= £3000+
Cyflog i weithiwr yn ei le	= £7000+
Colli amser i'r rheolwr/rheolwr-gyfarwyddwr	= £4000+
Costau cyfreithiol	= £3000
Dirwyon a chostau llys	= £4000+
Cynnydd ym mhremiymau Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr	= £6000

Cyfanswm y gost i'r busnes **= £45 000+**

Cost arall oedd bod dau weithiwr, nad oeddent yn rhan o'r ddamwain, wedi cael eu diswyddo er mwyn atal y cwmni rhag mynd allan o fusnes.

Cofiwch

I gael enghreifftiau eraill ymwelwch â'n gwefan yn www.hse.gov.uk/costs/

Gall salwch sy'n gysylltiedig â gwaith gostio dros ddwy waith yn fwy na damwain sy'n peri anaf.

Ond nid yw fy musnes yn cael llawer o ddamweiniau

Mae eich gweithwyr yn llai tebygol o gael damweiniau a salwch yn y gwaith os oes gennych fesurau da yn eu lle.

Ond gall pethau fynd o le.

Ac nid dim ond y damweiniau mawr fydd yn costio arian i chi; bydd yna lawer o rai llai difrifol. Mae pob un o'r rhain yn costio arian i chi hefyd – ac yn aml bydd yn fwy na'r costau union.

Mae gwir gost mân anaf yn llawer mwy na gosod plaster. Beth yw'r gost i chi o gael person i ffwrdd o'i waith, hyd yn oed am amser byr? A beth am y bobl sy'n eu helpu?

- Beth os byddai damwain ddifrifol yn digwydd sy'n cynnwys gweithiwr allweddol?
  - A fyddai'ch busnes yn gallu ymdopi?
  - Beth fyddai'r effeithiau?
  - Sut byddai'n gwneud i chi deimlo?
- Dychmygwch y costau pe bai eich cwmni'n cael ei erlyn.
  - Sut fyddai hyn yn effeithio ar enw da eich busnes?

Ac yn ogystal â chost ariannol digwyddiadau o'r fath, ceir hefyd y straen o orfod delio â nhw.

Cofiwch

Y lleiaf eich busnes, y mwyaf fydd yr effaith os cewch ddigwyddiad difrifol. Gallai eich rhoi allan o fusnes.

Ond mae gennyf yswiriant ar gyfer digwyddiadau o'r fath, onid oes?

Nid yw polisïau yswiriant yn cwmpasu popeth ac efallai mai dim ond talu am anafiadau neu ddifrod difrifol y gwnant. Bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw gostau eraill.

Mae swm y costau diyswiriant hyn yn amrywio rhwng busnesau a'r math o ddigwyddiad, ond mae'n llawer mwy na'r costau yswiriant.

Cofiwch

Ni ellir hawlio costau diyswiriant. A gallai cofnod iechyd a diogelwch gwael olygu premiymau uwch neu wrthod yswiriant yn y dyfodol.

Sut gallaf ostwng y costau hyn?

Gallwch gymryd nifer o gamau er mwyn lleihau'r siawns bod damweiniau a salwch yn digwydd yn eich busnes.

CAM 1 Ceisiwch ganfod beth allai achosi niwed.

CAM 2 Adnabyddwch pwy allai gael ei anafu - gan gynnwys eich gweithwyr, ymwelwyr neu aelodau o'r cyhoedd.

CAM 3 Penderfynwch beth y dylech ei wneud er mwyn arbed unrhyw beth rhag digwydd iddynt.

CAM 4 Gweithredwch mewn ffordd drefnus, gan gofnodi beth rydych wedi ei wneud.

CAM 5 Gwnewch yn siŵr, o bryd i'w gilydd, fod y mesurau hyn yn dal i weithio.

Gofynnwch am help, os bydd ei angen arnoch, gan:

- eich gweithwyr – yn aml bydd ganddynt atebion syml i broblemau;
- grwpiau iechyd a diogelwch galwedigaethol lleol;
- eich cwmni yswiriant;
- undebau llafur a chynrychiolwyr diogelwch;
- Siambrau Masnach a Menter;
- Cymdeithasau Masnach;
- HSE neu awdurdodau lleol;
- cynghorau dysgu a sgiliau lleol.

Cofiwch

Gallwch ostwng eich costau drwy atal damweiniau a salwch yn y gweithle.

Mae arbed costau'r digwyddiadau hyn yn fuddsoddiad yn nyfodol eich busnes.

Ble allaf gael rhagor o gyngor?

Lle da i gychwyn yw llyfryn HSE sef *Hanfodion iechyd a diogelwch yn y gwaith* (ISBN 0 7176 0716 X). Bydd y canllaw hwn sy'n ymarferol a hawdd ei ddefnyddio, yn eich helpu i atal damweiniau a salwch yn y gweithle ac i gydymffurfio â'r gyfraith heb ymyrryd na mynd i gostau mawr.

Ceir ffynonellau defnyddiol eraill ar iechyd a diogelwch trosodd.

Yn llawn cyngor da i'ch rhoi ar y llwybr cywir ac i'ch helpu i ddechrau cynllunio ar gyfer diogelwch, mae'r 19 pennod ynddo yn cynnwys rhestrau gwirio, diagramau a ffotograffau sy'n cwmpasu'r ystod eang o beryglon yn y gweithle.

Ni allai fod yn haws cael y pethau sylfaenol ar flaen eich bysedd!

Cofiwch

Gallwch gysylltu â Llinell Gwybodaeth HSE ar 08701 545500
Gallwch gysylltu â HSE Books ar 01787 881165

Sut gallaf weithio fy nghostau fy hun allan?

Mae pob digwyddiad a phob busnes yn wahanol – yr unig ffordd i wybod eich costau'n fanwl gywir yw trwy eu mesur. Ond mae dulliau cyflym i ragdybio beth y gall y gost bosibl fod i'ch busnes oherwydd damweiniau a salwch.

Gellir defnyddio'r dulliau canlynol er mwyn amcangyfrif eich colledion diyswiriant ar gyfartaledd bob blwyddyn. Ni all y costau hyn gael eu hadfer. Gan eu bod yn ddulliau gwahanol cewch atebion gwahanol – ond maent i gyd yn dangos beth y gallech fod yn ei golli.

Dull 3

Math o ddamwain	*Cost diyswiriant ar gyfartaledd fesul damwain*	*Nifer y damweiniau*	*Cyfanswm y gost (cost ar gyfartaledd x nifer y damweiniau)*
Peri absenoldeb o'r gwaith	**£2097**		
Angen cymorth cyntaf yn unig	**£33**		
Difrod i beiriannau, cyfarpar ac ati ond dim niwed i unrhyw un	**£141**		
	Cyfanswm		

Dull 1 Fel canllaw bras, daeth HSE i'r casgliad, ar gyfartaledd, fod y gost o golledion diyswiriant 10 gwaith yn fwy na chost premiymau yswiriant a dalwyd yn yr un cyfnod.

Dull 2 Mae Gwasanaethau Risg Norwich Union yn amcangyfrif bod colledion diyswiriant o ganlyniad i ddamweiniau mewn cwmnïau bach yn dod i gyfanswm o £315 am bob gweithiwr y flwyddyn.

Dull 3 Gwnaeth astudiaeth arall, na wnaethpwyd gan HSE, gyfrifo'r costau ar gyfartaledd ar gyfer mathau gwahanol o ddamweiniau. Gallwch ddefnyddio'r costau hyn os ydych yn gwybod faint o'r mathau gwahanol hyn o ddamweiniau rydych yn eu cael bob blwyddyn (efallai drwy edrych yn eich llyfr damweiniau). Yn syml, lluoswch nifer y damweiniau â'r gost ar gyfartaledd fesul damwain. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r tabl (chwith) i nodi'r wybodaeth.

Cofiwch

Ni fydd y dulliau hyn yn rhoi gwir gost damwain ddifrifol, a fydd yn llawer uwch. Er mwyn costio'n fwy manwl, defnyddiwch y Gyfrifiannell Cost Digwyddiad trosodd.

Sut i gwblhau'r Gyfrifiannell Cost Digwyddiad?

Gall y ffurflen hon gael ei chwblhau ar-lein yn electronig yn www.hse.gov.uk/costs/

Mae'r fersiwn sydd ar y wefan hefyd yn rhoi rhai enghreifftiau o gostau i'ch helpu, ynghyd â help ar sut i gwblhau'r ffurflen.

Mae gan y wefan hefyd dabl rhyngweithiol sy'n gweithio allan gostau poen cefn ac anafiadau straen ailadroddus (RSI) yn seiliedig ar waith gan y TUC.

Mae'r ffurflen yn eich galluogi i nodi llawer o'r prif gostau sy'n gysylltiedig â damweiniau a salwch yn y gwaith. Mae'r swm y gellir ei adfer trwy'ch yswiriant yn dibynnu ar dermau ac amodau'r polisi sydd gennych.

Cyngor defnyddiol:

- Cofnodwch y ffeithiau a'r costau cysylltiedig cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad, tra'ch bod yn ymchwilio i'r hyn a aeth o'i le.
- Efallai na fydd rhai costau ar y ffurflen yn berthnasol, neu ond yn wybyddus yn ddiweddarach. Efallai y bydd rhaid i chi amcangyfrif rhai eraill.
- Ar gyfer pob maes cost ystyriwch yr holl gostau sy'n cynnwys:
  - pobl;
  - eiddo;
  - peiriannau, cyfarpar a sylweddau;
  - gweithdrefnau.
- Anogwch eich gweithwyr i gofnodi pob digwyddiad. Po fwyaf o wybodaeth fydd gennych, y manylach fydd eich costau.
- Gallwch lungopïo'r ffurflen hon er mwyn ei defnyddio fwy nag unwaith.

Cofiwch

Dim ond pan fydd costau damweiniau a salwch yn gysylltiedig â'ch busnes y bydd ganddynt ystyr go iawn. Dylech eu cymharu â'ch costau gweithredu cyffredinol, eich trosiant blynyddol, neu'r gwaith neu'r 'gwerthiannau' ychwanegol fydd eu hangen i'w cwmpasu. Gallwch benderfynu wedyn pa mor arwyddocaol y maent.

Y Gyfrifiannell Cost Digwyddiad

Dyddiad ac amser y digwyddiad . . . . . .
Disgrifiad o'r digwyddiad . . . . . .
Enw'r person perthnasol . . . . . .

Ymdrin â'r digwyddiad (gweithredu ar unwaith)

Enghreifftiau	*Amser a dreuliwyd*	*Cost (£)*
Triniaeth Cymorth Cyntaf		
Mynd â'r person a anafwyd i'r ysbyty/adref		
Gwneud yr ardal yn ddiogel		
Ymladd tân		
Amser segur staff ar unwaith (ee stopio gweithio)		
Arall		

Ymchwilio i'r digwyddiad

Enghreifftiau	*Amser a dreuliwyd*	*Cost (£)*
Amser i'r staff gofnodi ac ymchwilio i'r digwyddiad		
Cyfarfodydd i drafod y digwyddiad ac ati		
Amser a dreuliwyd gydag arolygydd HSE/awdurdod lleol		
Ffioedd ymgynghorydd er mwyn cynorthwyo'r cwmni gyda'r ymchwiliad		
Arall		

Dychwelyd i fusnes

Enghreifftiau	*Amser a dreuliwyd*	*Cost (£)*
Asesu/ad-drefnu gweithgareddau gwaith		
Adfer gwaith/cynhyrchiant (gan gynnwys costau staff)		
Clirio'r safle a chael gwared ar wastraff, cyfarpar, cynnyrch ac ati		
Dod â gwaith i fyny i safon (ee amser/costau adweithio cynnyrch)		
Trwsio unrhyw ddifrod/diffygion		
Llogi neu brynu offer, cyfarpar, peiriannau, gwasanaethau ac ati		
Arall		

Costau Busnes

Enghreifftiau	*Amser a dreuliwyd*	*Cost (£)*
Costau cyflog y person a anafwyd tra i ffwrdd o'r gwaith		
Costau cyflog gweithwyr yn ei le		
Amser gwaith a gollwyd (pobl yn aros i ailddechrau gweithio, oedi, gostyngiad mewn cynhyrchiant, effaith ar gynhyrchiant pobl eraill ac ati)		
Costau goramser		
Costau recriwtio staff newydd		
Costau contract		
Archebion a ganslwyd a/neu a gollwyd		
Arall		

Mesurau i ddiogelu busnes yn y dyfodol

Enghreifftiau	*Amser a dreuliwyd*	*Cost (£)*
Rhoi sicrwydd i gwsmeriaid		
Darparu ffynonellau cyflenwi gwahanol i gwsmeriaid		
Arall		

Sancsiynau a chosbau

Enghreifftiau	*Amser a dreuliwyd*	*Cost (£)*
Taliadau cais am iawndal		
Ffioedd cyfreithwyr a threuliau cyfreithiol		
Amser y staff yn delio ag achosion cyfreithiol		
Dirwyon a chostau a osodwyd oherwydd gweithrediadau troseddol		
Cynnydd mewn premiymau yswiriant		
Arall		

Arall

Enghreifftiau	*Amser a dreuliwyd*	*Cost (£)*

Cyfanswm

Cysylltiadau defnyddiol

Llyfrau HSE

Mae cyhoeddiadau HSE sydd am ddim a'r rhai sydd ar werth ar gael gan:
HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA
Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995
Gwefan: www.hsebooks.co.uk
(Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau.)

Llinell Gwybodaeth HSE

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Gwybodaeth HSE.
Ffôn: 08701 545500 Ffacs: 02920 859260
e-bost: hseinformationservices@natbrit.com
neu ysgrifennwch i:
Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG
Gallwch hefyd ymweld â gwefan HSE www.hse.gov.uk

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad yw'n orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried beth i'w wneud.

Mae'r daflen hon yn rhan o'r Fenter Adfywio Iechyd a Diogelwch, sydd wedi cael ei lansio gan y Llywodraeth a'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch, gan fod pobl o hyd yn marw, yn cael eu hanafu neu'n mynd yn sâl yn y gwaith.

HSC
Comisiwn Iechyd a Diogelwch

Gellir ailgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio ar gyfer hysbysebu, cymeradwyo, neu at ddibenion masnachol.

INDG355 03/03 C000

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch